WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Richard Parry-Jones
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
LL77 7TW

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 24 Medi 2012 |
| **Ein cyfeirnod** | 512A2012 |
| **Eich cyfeirnod** | |
| **Rhif ffôn** | 029 2032 0500 |
| **E-bost** | wales@wao.gov.uk |
| **Tudalennau** | **1** o 12 |

Annwyl Richard

## Asesiad Gwella

Mae'n ofynnol i mi, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), gyflwyno adroddiad ar fy ngwaith archwilio ac asesu ynghylch a yw Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy marn ynghylch a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chynllunio gwelliant;
- fy marn ar gydymffurfiaeth y Cyngor â'r gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus, yn seiliedig ar waith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, gan gynnwys:
  - cynnydd y Cyngor mewn perthynas â meysydd i'w gwella ac argymhellion a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol;
  - unrhyw faterion perthnasol a all fod wedi dod i'r amlwg ers fy adroddiad diwethaf, gan gynnwys sylwadau ar sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â heriau ariannol;
  - crynodeb byr o unrhyw adroddiadau gan reoleiddwyr perthnasol a gyhoeddwyd ers fy adroddiad diwethaf.
- fy nghynigion pellach ar gyfer gwella a/neu argymhellion;
- diweddariadau i gynllun gwaith ac amserlen Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyflawni fy ngwaith ar yr Asesiad Gwella.

Byddaf yn diweddaru fy safbwyntiau yn ystod y flwyddyn ac yn anfon llythyr arall erbyn diwedd mis Tachwedd 2012.

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan y Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Deuthum i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae Cynllun y Cyngor ar gyfer 2012-15 (y Cynllun) yn nodi amcanion gwella'r Cyngor, sy'n cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac yn ymddangos yn gyflawnadwy;
- mae'r amcanion gwella yn seiliedig ar feysydd allweddol y Comisiynwyr ar gyfer gwella a'r meysydd ar gyfer gwella a nodwyd gan reoleiddwyr allanol, ac fe'u cymeradwywyd gan y Cyngor;
- mae canlyniadau gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd wedi llywio'r broses o ddatblygu canlyniadau;
- mae'r Cyngor wedi pennu targedau uchelgeisiol i'w cyflawni yn ystod oes y Cynllun;
- mae'r cyfrifon wedi cael cyhoeddusrwydd yn unol â therfynau amser statudol.

Mae Cynllun y Cyngor yn nodi pedwar amcan gwella ar gyfer 2012-13 ac yn egluro'n glir pam y dewiswyd yr amcanion gwella. Mae'r Cynllun yn fwy seiliedig ar ganlyniadau nag o'r blaen ac yn adlewyrchu anghenion dinasyddion yn well. Cynhaliodd y Cyngor arolwg o ddinasyddion yn gynharach eleni a defnyddiodd yr adborth i ailbennu blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer 2012-13 ac i lywio ei Gynllun ar gyfer 2012-15. Anogir dinasyddion i barhau i gysylltu â'r Cyngor er mwyn helpu i bennu amcanion gwella ar gyfer 2013-14. Mae'r Cynllun ar gael ar ffurf gryno, ac mae'r Cyngor yn hyrwyddo'r fersiwn honno.

Mae cyfle i'r Cyngor wella ansawdd ei Gynllun ymhellach. Er enghraifft, mae pob amcan gwella yn cynnwys disgrifiad o lwyddiant, ond nid yw rhai ohonynt yn ddigon clir o ran sut y cânt eu mesur neu, mewn rhai achosion, beth yw'r safon. Nodir camau gweithredu yn y Cynllun, ond nid yw rhai ohonynt yn ddigon clir o ran yr hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud.

Ardystiwyd Datganiad Cyfrifon drafft y Cyngor gan y swyddog a151 interim o fewn y terfyn amser o 30 Mehefin 2012 ac fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf 2012. Mae'r gwaith o archwilio'r Datganiad Cyfrifon wedi'i gwblhau i raddau helaeth a disgwylir i'r cyfrifon gael eu cymeradwyo a'u cyhoeddi gyda'r dystysgrif archwilio erbyn y terfyn amser, sef diwedd mis Medi 2012. Dyma'r tro cyntaf ers tair blynedd i'r broses hon gael ei chwblhau yn unol â'r holl derfynau amser statudol.

## Ar sail gwaith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac wedi'i gyfyngu i'r gwaith hwnnw, credaf fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon

Deuthum i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran ymdrin â deg thema gwella Llywodraethu Corfforaethol y Comisiynwyr;
- mae eglurder cyfeiriad y Cyngor yn gwella a gwnaed cynnydd rhesymol wrth ymdrin â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf;
- er nad yw wedi'i chwblhau eto, mae'r broses o ailstrwythuro swyddi uwch reolwyr yn ychwanegu'n sylweddol at gapasiti'r Cyngor a'i allu i sicrhau gwelliant pellach o ran swyddogaethau corfforaethol a swyddogaethau gwasanaethau penodol;
- mae'r Cyngor yn ymdrin â materion dadleuol mewn ffordd fwy aeddfed nag o'r blaen ac mae wedi cymryd camau i sicrhau y gellir cynnal y gwelliant;
- mae'r Cyngor wedi gwella ei drefniadau ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ac yn dechrau ymdrin ag adnewyddu democrataidd;
- mae'r Cyngor wedi ymateb mewn ffordd adeiladol a chyfrifol i'r arolygiad hynod feirniadol a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru o'i wasanaethau addysg.

### Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran ymdrin â deg thema gwella Llywodraethu Corfforaethol y Comisiynwyr

Yn dilyn fy argymhelliad yn 2011, penododd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol bum Comisiynydd a ddisodlodd Weithrediaeth y Cyngor. Roedd ymyrraeth ar y raddfa hon yn unigryw, gan adlewyrchu difrifoldeb problemau hanesyddol y Cyngor. Yn dilyn hynny, datblygodd y Comisiynwyr raglen waith er mwyn helpu i lywio gwelliant cynaliadwy o ran trefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor. Mae'r rhaglen waith yn cynnwys datblygu 10 thema gwella llywodraethu corfforaethol y bydd y Comisiynwyr yn eu defnyddio i gynnal asesiadau rheolaidd o gynnydd y Cyngor. Mae'r themâu yn ymdrin mewn modd cynhwysfawr â'r materion critigol y mae angen i'r Cyngor fynd i'r afael â hwy er mwyn sicrhau gwelliant cynaliadwy hirdymor.

Dengys adroddiad chwarterol diweddaraf y Comisiynwyr gynnydd boddhaol yn erbyn pob un o'r 10 thema gwella llywodraethu corfforaethol ac aseswyd bod cynnydd da wedi'i wneud mewn perthynas â thros mwy na'u hanner a hynny yn groes i ddisgwyliadau.

## Mae eglurder cyfeiriad y Cyngor yn gwella a gwnaed cynnydd rhesymol wrth ymdrin â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf

Yn y gorffennol, gwneuthum nifer o gynigion ar gyfer gwella a nodais hefyd rai meysydd lle y byddem yn gwneud rhagor o waith. Caiff cynnydd mewn perthynas â'r materion hyn ei grynhoi isod a'i ddisgrifio'n fanylach yn Atodiad 1. Gyda chymorth ac arweiniad y Comisiynwyr:

- mae'r Cyngor wedi recriwtio tri uwch swyddog newydd a chanddynt gofnod credadwy o wella perfformiad;
- mae'r Prif Weithredwr wedi sefydlu uwch dîm arwain newydd y bydd ei strwythur yn hwyluso gwell ffocws nag o'r blaen ar reoli cysylltiadau mewnol ac allanol, rheoli newid, rheoli prosiectau a rhaglenni;
- mae Penaethiaid Gwasanaeth yn cyflwyno Cynlluniau Darparu Gwasanaethau sy'n eu gwneud yn fwy atebol dros roi trefniadau rheoli newid gweithredol ar waith;
- mae'r gwasanaeth TGCh yn cael ei ailstrwythuro i ganolbwyntio fwy ar gwsmeriaid ac i foderneiddio'r ffordd y mae'r Cyngor yn cynnal ei fusnes;
- mae strwythur staffio'r adran gyllid yn cael er mwyn datblygu i ddarparu capasiti ychwanegol i gefnogi gwasanaethau yn ogystal â darparu'r gwasanaethau cyllid corfforaethol sydd eu hangen.

## Er nad yw wedi'i chwblhau eto, mae'r broses o ailstrwythuro swyddi uwch reolwyr yn ychwanegu'n sylweddol at gapasiti'r Cyngor a'i allu i sicrhau gwelliant pellach o ran swyddogaethau corfforaethol a swyddogaethau gwasanaethau penodol

Ers fy adroddiad diwethaf, mae'r Cyngor wedi recriwtio tri swyddog newydd a phrofiadol i'w uwch dîm rheoli. Mae'r arbenigedd y maent yn ei gynnig i'r Cyngor yn ychwanegu'n sylweddol at ei allu i ymgorffori'r newidiadau a gyflwynwyd gan y Comisiynwyr ac i nodi gwelliannau pellach a'u rhoi ar waith. O gael arweinyddiaeth wleidyddol a chymorth effeithiol, gallai'r uwch reolwyr newydd hefyd ymdrin â'r gwendidau sydd wedi dod i'r amlwg o fewn gwasanaethau allweddol ers penodi'r Comisiynwyr ac y cyfeiriaf atynt yn ddiweddarach yn y llythyr hwn. Mae'r Cyngor wedi defnyddio cymorth allanol er mwyn helpu ei dîm rheoli newydd i asio i greu uned effeithiol a chydlynol sy'n gwneud y defnydd gorau o'r unigolion o'i mewn.

Mae'r swydd Pennaeth Adnoddau yn y tîm rheoli yn dal yn wagond mae ail ymgyrch recriwtio wedi llwyddo i ddenu cryn ddiddordeb ac mae'r Cyngor yn gobeithio y caiff unigolyn ei benodi i'r swydd yn y dyfodol agos. Yn y cyfamser, mae deiliad interim y swydd yn darparu arweinyddiaeth gadarn wrth helpu'r Cyngor i ymdrin â'r heriau ariannol sylweddol a wynebir ganddo ac wrth ddechrau diwygio'r gwasanaethau cyllid a TGCh.

## Mae'r Cyngor yn ymdrin â materion dadleuol mewn ffordd fwy aeddfed nag o'r blaen ac mae wedi cymryd camau i sicrhau y gellir cynnal y gwelliant

Ers eu penodi, mae'r Comisiynwyr wedi gweithio'n galed i ddatblygu sgiliau cynghorwyr ac i fanteisio ar eu gwybodaeth leol cyn gwneud penderfyniadau. Mae'r Weithrediaeth gysgodol, yn arbennig, wedi ymateb yn dda ac yn gweithredu mewn ffordd aeddfed mewn perthynas â materion anodd, gan gydweithio'n dda â Chomisiynwyr, y Prif Weithredwr a swyddogion ar ddatblygiadau allweddol.

Yn wahanol i'r gorffennol, mae'r Pwyllgor Safonau wedi dangos ei fod yn barod i weithredu mewn ffordd benderfynol lle bo angen ac mae nifer yr achosion a gaiff eu hatgyfeirio i'r Ombwdsmon wedi gostwng. Ceir llai o achosion hefyd nag o'r blaen o aelodau yn rhoi gwybodaeth i'r wasg ac yn gweithredu mewn ffordd unochrog i geisio ymdrin â materion yn eu wardiau.

Mae'r Cyngor wedi diwygio ei Gyfansoddiad er mwyn gwella'r ffordd y mae'n gweithredu. Dylai'r newidiadau helpu i atal rhai o'r materion a arweiniodd yn y gorffennol at ansefydlogrwydd gwleidyddol ac ychwanegu rhywfaint o gynaliadwyedd i'r Cyngor yn y dyfodol.

## Mae'r Cyngor wedi gwella ei drefniadau ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ac yn dechrau ymdrin ag adnewyddu democrataidd

Mae'r Cyngor wedi datgan ei fwriad i wella ei drefniadau ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd drwy reoli ei wefan yn well. Mae'r wefan yn dod yn fwy hygyrch ac ymgynghorol ac yn cynnwys mwy o wybodaeth. Mae'r Cyngor wedi trefnu 'sioeau teithiol' cyhoeddus er mwyn canfod barn ei ddinasyddion. Fodd bynnag, mae'r Cyngor bellach yn cydnabod bod y sioeau teithiol hyn wedi bod yn llafurus o ystyried y niferoedd a oedd yn bresennol a'r buddiannau cyfyngedig a gyflawnwyd. Mae'r Cyngor wedi ymdrin â hyn ac mae bellach wedi sefydlu panel o 400 o drigolion sy'n barod i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau ar amrywiaeth o faterion.

Mae'r Cyngor wedi derbyn cynigion y Comisiwn Ffiniau i ailgyflunio ffiniau wardiau er mwyn creu wardiau aml-aelod ar ôl yr etholiadau ym mis Mai 2013. O ganlyniad, bydd aelodaeth y Cyngor yn gostwng o 40 o gynghorwyr i 30 o gynghorwyr. Mae'r ffaith bod y Cyngor wedi derbyn y newid hwn, sy'n amlwg yn ddadleuol, yn dystiolaeth bellach o'r ffaith bod yr aelodau yn fwy aeddfed. Yn anochel, bydd y gostyngiad yn nifer yr aelodau yn gofyn am newidiadau o fewn strwythur Gweithrediaeth a phwyllgorau'r Cyngor. Er mwyn paratoi ar gyfer hyn, mae un o'r Comisiynwyr yn cadeirio gweithgor i sefydlu'r strwythur newydd cyn yr etholiadau fel na chaiff momentwm ei golli wedi hynny.
Mae'r Cyngor hefyd yn bwriadu rhoi proses sefydlu ar waith ar gyfer aelodau newydd.

## Mae'r Cyngor wedi ymateb mewn ffordd adeiladol a chyfrifol i'r arolygiad hynod feirniadol a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru o'i wasanaethau addysg

Ym mis Mai 2012, arolygodd Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru Wasanaethau Addysg Awdurdod Lleol y Cyngor i Blant a Phobl Ifanc. Canfu'r arolygiad fod y gwasanaethau yn anfoddhaol a bod eu capasiti i wella yn anfoddhaol. Mae'r adroddiad yn argymell y dylai'r Cyngor:

- wella safonau ymhob cyfnod allweddol a sicrhau bod pob dysgwr a all wneud hynny yn cyflawni llythrennedd gweithredol erbyn diwedd cyfnod allweddol 2;
- cynllunio'n fwy effeithiol gyda gweithwyr proffesiynol perthnasol i wella cyfraddau presenoldeb ysgolion;
- rhoi prosesau cynllunio busnes, cynllunio prosiectau ac asesu risg cadarn ar waith er mwyn proffesiynoli'r ffordd y caiff gwasanaethau addysg eu darparu'n weithredol;
- cynllunio arbedion yn well wrth ddyrannu adnoddau i'r gwasanaeth Dysgu Gydol Oes;
- sicrhau bod y gofynion hunanwerthuso yn fwy trwyadl a chyson, ar lefel weithredol ac ar lefel strategol;
- cymryd camau i leihau lleoedd gwag;
- ffurfioli ac atgyfnerthu systemau rheoli perfformiad a herio perfformiad ysgolion a swyddogion.

Mae'r argymhellion hyn yn heriol. Mae'r adroddiad yn cydnabod bod y Comisiynwyr, ers eu penodi ym mis Mawrth 2011, wedi canolbwyntio eu hymdrechion ar ddatblygu swyddogaethau a phrosesau corfforaethol. Nid oedd Cyfarwyddwr Corfforaethol newydd y gwasanaeth Dysgu Gydol Oes yn ei swydd yn llawn amser tan ar ôl yr arolygiad, yn dilyn cyfnod o 12 mis lle roedd y swydd yn wag. O ganlyniad, gostyngodd capasiti'r adran yn ystod cyfnod anodd.

Ymhlith y materion sy'n deillio o hynny, mae etifeddiaeth o drefniadau llywodraethu corfforaethol gwael yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r Cyngor wedi ymateb mewn ffordd adeiladol a chyfrifol i'r canfyddiadau a'r argymhellion heriol hyn ac wedi llunio cynllun gweithredu drafft i wella ansawdd ei wasanaethau addysg. Bydd Bwrdd Adfer a benodwyd gan y Gweinidog Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn goruchwylio cynnydd y Cyngor. Nid yw’r data cyflawn am berfformiad ysgolion yn 2012 ar gael eto. Fodd bynnag, mae arwyddion addawol fod perfformiad disgyblion mewn ysgolion cynradd, yn enwedig, wedi gwella’n arwyddocaol ers 2011.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella/argymhellion

Yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, argymhellais y dylai Gweinidogion Cymru:

- hyrwyddo trefniadau i drosglwyddo pwerau gwneud penderfyniadau yn raddol o'r Comisiynwyr i'r Weithrediaeth gysgodol;
- wrth i'r broses o drosglwyddo pwerau gwneud penderfyniadau fynd rhagddi, ailddiffinio rôl y Comisiynwyr er mwyn iddynt fonitro cynnydd y Cyngor, tra'n parhau i feddu ar y pŵer i ymyrryd fel y bo angen.

Credaf ei bod bellach yn bryd rhoi'r argymhelliad hwn ar waith. Rwyf yn cytuno â gwerthusiad y Comisiynwyr bod yr amodau bellach wedi'u creu a fyddai'n galluogi i'r Gweinidog ystyried dychwelyd i reolaeth ddemocrataidd gyda chamau diogelu penodol ar waith. Er mai penderfyniad y Gweinidog fydd union natur camau diogelu o'r fath, argymhellaf y dylai'r Comisiynwyr:

- barhau i roi adroddiadau monitro chwarterol i'r Gweinidog gan ganolbwyntio'n benodol ar gynnydd y Cyngor wrth weithredu'r 10 thema gwella Llywodraethu Corfforaethol;
- cadw'r pŵer i gadarnhau neu wrthwneud unrhyw benderfyniad a wneir gan y Cyngor neu ei Weithrediaeth yr ymddengys i'r Comisiynwyr ei fod wedi'i wneud yn groes i gyngor neu argymhellion perthnasol.

Mae uwch arweinwyr y Cyngor yn cydnabod bod gan y Comisiynwyr gryn dipyn i'w gynnig o ran parhau i wella'r ffordd y mae'r Cyngor yn cynnal ei fusnes. Fodd bynnag, wrth ymgymryd â rôl ddiwygiedig lle na fyddant bellach yn gweithredu fel Gweithrediaeth y Cyngor, ond, yn hytrach, byddant yn monitro penderfyniadau'r Cyngor ei hun, bydd yn bwysig sicrhau bod y Comisiynwyr yn ymwybodol o'r risg y gallai eu hannibyniaeth gael ei rhoi yn y fantol wrth adolygu penderfyniadau lle y byddant wedi gweithredu fel cynghorwyr ar faterion polisi.

O dan delerau ymyrryd diwygiedig o'r fath, rwyf yn cydnabod bod y Cyngor yn wynebu cyfnod heriol iawn wrth ddynesu at etholiadau mis Mai 2013. Yn ogystal â chadw momentwm y gwelliannau i'w drefniadau llywodraethu, bydd cynghorwyr yn wynebu profion llym wrth gymeradwyo cyllideb ar gyfer 2013-14 ac wrth ymdrin â'r broses o foderneiddio gwasanaethau allweddol fel addysg a gofal cymdeithasol. Mae angen rhagor o waith hefyd i ailennyn hyder llywodraeth leol a phartneriaid eraill yn nyfodol hirdymor y Cyngor.

Felly nid wyf am wneud unrhyw argymhellion na chynigion pellach ar gyfer gwella i'r Cyngor yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd a wneir gan y Cyngor o ran gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol a chyflwyno adroddiadau arno.

## Diweddariadau i'r cynllun gwaith a'r amserlen

Bydd Tîm yr Asesiad Gwella yn sicrhau bod y Cyngor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau manwl ar gyfer cyflwyno fy ngwaith asesu.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen a gaiff eu diweddaru'n rheolaidd yn rhoi rhagor o fanylion am y gwaith sy'n cael ei gyflawni yn ystod asesiad eleni ac yn benodol sut y byddwn yn ychwanegu gwerth drwy ganolbwyntio ar feysydd neu wasanaethau a nodwyd ar y cyd.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen yn ystyried fy ymgynghoriad â'r awdurdodau gwella ar fy nghynigion ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2012-13. Yn benodol, byddaf yn gofyn i Dîm yr Asesiad Gwella ystyried yn ystod y flwyddyn faint y gallwn ddibynnu ar y prosesau hunanasesu (gan gynnwys eich adolygiad o lywodraethu wrth gynhyrchu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'ch Adroddiad Perfformiad Blynyddol).
Byddaf yn gwneud sylwadau ar y gwaith hwn yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Cyngor am y ffordd y mae wedi helpu i hwyluso ein gwaith a gobeithiaf weld trefniadau hyd yn oed fwy effeithiol ac effeithlon yn datblygu dros amser. Rwyf yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu lefelau priodol o sicrwydd cyhoeddus gan eich helpu ar yr un pryd i liniaru'r risgiau anochel i wasanaethau ac atebolrwydd sy'n deillio o leihad mewn adnoddau a newidiadau o ganlyniad i hynny.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**

**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

CC: Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

Huw Lloyd Jones, Rheolwr

Andy Bruce, Arweinydd Archwilio Perfformiad

# Atodiad 1

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| P1. Dylai'r Cyngor wneud trefniadau sy'n galluogi'r Prif Weithredwr i ganolbwyntio ar:<br>• arwain a datblygu'r Uwch Grŵp Arwain;<br>• rheoli aelodau unigol o'r Uwch Grŵp Arwain, gan sicrhau eu bod yn atebol am gyflawni agweddau penodol ar agenda'r Cyngor ar gyfer gwella trefniadau llywodraethu;<br>• cynrychioli'r Cyngor yn allanol. | Mae'r Cyngor wedi gwella ei drefniadau i alluogi'r Prif Weithredwr i ganolbwyntio fwy ar gyfrifoldebau arwain a rheoli cysylltiadau allanol. Mae'r ailstrwythuro yn cynnwys Uwch Dîm Arwain newydd sy'n cynnwys; y Prif Weithredwr, Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Cymunedau, Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy a Phennaeth Swyddogaeth (Adnoddau).<br>Caiff atebolrwydd ei atgyfnerthu drwy ddatblygu cynllun busnes yr Uwch Dîm Arwain a gweithdai a ddarperir gan ymgynghoriaeth allanol. |
| P2. Dylai'r Cyngor ddatblygu rôl rheolwyr canol er mwyn sicrhau'r canlynol:<br>• ar y cyd, eu bod yn rhoi adborth i uwch reolwyr am y broses o weithredu newid;<br>• yn unigol ac ar y cyd, eu bod yn atebol am gyflawni newid gweithredol yn y gwasanaethau a reolir ganddynt. | Mae'r Cyngor yn datblygu rôl rheolwyr canol drwy nifer o fentrau, gan gynnwys gweithio gydag ymgynghoriaeth allanol i greu strategaeth Datblygiad Sefydliadol. Mae'r Uwch Dîm Arwain yn ystyried model gweithredu ar gyfer y strategaeth a strategaeth cyfathrebu mewnol ym mis Medi 2012.<br>Mae'r Fframwaith Cynllunio a Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn ei gwneud yn ofynnol i Benaethiaid Gwasanaeth gyflwyno Cynlluniau Darparu Gwasanaethau sy'n nodi'r cyfraniad y bydd gwasanaethau yn ei wneud wrth gyflwyno newid a phwy sy'n atebol. Mae'r cynlluniau ar gael drwy fewnrwyd y Cyngor a bydd cyfarfodydd monitro perfformiad chwarterol i'r rheolwyr canol yn darparu adborth i uwch reolwyr am unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r broses o weithredu newid.<br>Caiff cynnydd tuag at y Cynllun Busnes Corfforaethol a'r Cynlluniau Darparu Gwasanaethau ei asesu drwy gyfarfodydd monitro perfformiad chwarterol. Yn ystod y cyfarfodydd, caiff y cofrestrau risg eu monitro a'u diweddaru.<br>Mae'r Bwrdd Cynaliadwyedd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y strategaeth rheoli risg ddrafft a'r gofrestr risg gorfforaethol. Mae'r Uwch Dîm Arwain wrthi ar hyn o bryd yn diweddaru'r cynllun gweithredu ar gyfer y gofrestr risg a bydd yn cyflwyno adroddiad i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
| --- | --- |
| P3. Dylai'r Cyngor sicrhau bod ganddo allu ac adnoddau digonol yn ei wasanaethau cyllid, Adnoddau Dynol a TGCh er mwyn:<br>• cyflawni'r swyddogaethau corfforaethol angenrheidiol sy'n gysylltiedig â phob un o'r gwasanaethau hyn i'r safonau gofynnol;<br>• rhoi cymorth i wasanaethau eraill y Cyngor yn unol â safonau y cytunwyd arnynt. | Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd i gynyddu ei allu a'i adnoddau yn y gwasanaethau TGCh, Adnoddau Dynol a Chyllid:<br>**TGCh**<br>Mae'r Cyngor yn ailstrwythuro'r gwasanaeth TGCh i fabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio fwy ar gwsmeriaid ac ymateb i'r agenda drawsnewid. Mae staff yn cael eu trosglwyddo i'r adran TGCh i wella capasiti ac mae rolau, hyfforddiant, gweithgareddau datblygu ac achredu yn cael eu hailgynllunio.<br>**Adnoddau Dynol**<br>Mae'r Cyngor yn rhyddhau arian ychwanegol i wella capasiti strategol a phenodwyd pum aelod ychwanegol o staff i wella capasiti a threfniadau cynllunio olyniant. Penodwyd swyddog Adnoddau Dynol penodedig i helpu'r Pennaeth Gwasanaeth interim a nodwyd swyddi allweddol i gefnogi cyfeiriad strategol y Cyngor.<br>Mae'r Cyngor wedi penodi arweinydd strategol ar gynllunio'r gweithlu.<br>**Cyllid**<br>Mae'r Cyngor yn rhyddhau arian ychwanegol i gynyddu capasiti'r adran Gyllid. Mae strwythur staffio'r adran Gyllid yn cael ei ddatblygu i ddarparu capasiti ychwanegol i gefnogi gwasanaethau yn ogystal â darparu gwasanaeth cyllid corfforaethol.<br>Dros dro, mae'r Cyngor yn cyflogi staff cyllid profiadol interim ar gontract i adolygu ac atgyfnerthu ei brosesau ac i helpu i ddatblygu'r aelodau parhaol o staff. Mae trefniadau mentora ar waith a chaiff staff eu secondio er mwyn sicrhau bod digon o staff ar gael i roi proses gweithredu'r cyfriflyfr ar waith.<br>Mae'r Cyngor wedi caffael system ariannol newydd a chafodd y broses cau Cyfrifon ei hadolygu a'i symleiddio.<br>Caiff strategaeth tymor canolig y Cyngor ei ddiweddaru gan ddefnyddio canllawiau cyllideb 2013-14. Mae'r aelodau wedi mynychu gweithdai penodol er mwyn cael arweiniad pellach. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| P4. Dylai'r Cyngor :<br>• ar y cyd, ddynodi ei amcanion gwella ar gyfer 2012-13 mewn modd sy'n galluogi iddo benderfynu pa un a'u cyflawnwyd ai peidio ac i gyflwyno adroddiadau cysylltiedig;<br>• defnyddio ei ddadansoddiad o berfformiad 2011-12 i ddysgu o'i lwyddiannau ac i benderfynu pa gamau y mae angen iddo eu cymryd i wella a chyflwyno adroddiad arnynt. | Cytunwyd ar Flaenoriaethau Gwella'r Cyngor ar gyfer 2012-13 ac mae mesurau wrthi'n cael eu datblygu i asesu pa un a yw'r blaenoriaethau yn cael eu cyflawni. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd perfformiad chwarterol i fonitro cynnydd tuag at amcanion y cynlluniau darparu gwasanaethau a'r cynllun busnes corfforaethol.<br>Mae'r Cyngor wedi cyflwyno Adolygiadau o Berfformiad Gwasanaethau er mwyn nodi cryfderau a gwendidau gwasanaethau a mesur cynnydd yn erbyn targedau'r gwasanaeth a thargedau corfforaethol.<br>Cynhaliwyd arolwg o ddinasyddion ddechrau 2012 a defnyddiwyd adborth o'r arolwg er mwyn i helpu i bennu'r blaenoriaethau ar gyfer 2012-13. Er mwyn helpu i lywio'r blaenoriaethau ar gyfer 2012-14, anogir gwaith ymgynghori pellach drwy wefan y Cyngor a'r panel cyhoeddus.<br>Mae cynllun adolygu perfformiad wrthi'n cael ei ddatblygu er mwyn helpu i ddadansoddi perfformiad blaenorol a nodi gwendidau a meysydd i'w gwella ymhellach.<br>Mae'r Uwch Dîm Arwain wrthi'n adolygu data a thueddiadau perfformiad er mwyn helpu i flaenoriaethu'r meysydd i'w gwella ar gyfer 2013-14 a thu hwnt. |